cyfnewidcymru xchangewales | eDalu

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cerdyn Pryniant Cymreig

Cymerwch Gerdyn Pryniant Cymreig a chael eich talu'n gynt

Mae cardiau prynu wedi hen ennill eu plwyf yn Sector Cyhoeddus Prydain gyda thros 1000 o sefydliadau ar draws yr holl sectorau yn defnyddio rhaglenni Cerdyn Prynu'r Llywodraeth, o dan nawdd Trysorlys Ei Mawrhydi. Yn sgil cytundeb rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Royal Bank of Scotland, mae cyfnewidcymru wedi bod yn rheoli'r Cerdyn Pryniant Cymreig ers 2002, gan gynnig dull costeffeithiol a diogel o brynu nwyddau a gwasanaethau risg isel. O ddefnyddio'r Cerdyn Pryniant hwn, mae prynwyr yn y sector cyhoeddus yn cael osgoi prosesau prynu-i-dalu biwrocrataidd.

Gan weithredu o fewn cyfyngiadau ariannol a thargedau effeithlonrwydd, mae'r Cerdyn yn ffordd o brynu sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd gyda Sector Cyhoeddus Cymru – mae dros 90 bellach yn defnyddio'r system. Gallech fod ar eich ennill yn fasnachol pe baech yn derbyn y Cerdyn Pryniant Cymreig fel ffordd o dalu am eich nwyddau a gwasanaethau.

Sut mae defnyddio'r Cerdyn Pryniant Cymreig?

Mae sefydliadau'r Sector Cyhoeddus yn rhoi'r cardiau i'r staff sy'n archebu nwyddau a gwasanaethau fel rhan o'u gwaith(e.e. i dalu am drefniadau teithio, offer swyddfa, defnyddiau cyfrifiadurol ac ati). Maent yn defnyddio'r cerdyn - fel y byddent yn defnyddio cerdyn credyd - i roi archeb i gyflenwr, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn neu ar-lein ac ati. Wedyn bydd y cyflenwr yn prosesu'r taliad drwy system y cerdyn gyda banc y prynwr yn **gwarantu** gwneud y **taliad** o fewn **3-4 diwrnod**. Nid oes angen anfon anfonebau at y cwsmer oni bai bod sefydliad y sawl sy'n defnyddio'r cerdyn yn gofyn yn benodol i chi wneud hynny.

Mewn rhai achosion bydd manylion y cerdyn (neu rith gerdyn) yn cael eu cadw gyda'r cyflenwr ei hunan, a bydd archebion yn cael eu rhoi trwy system ddiogel sy'n cael ei rheoli gan gyfrinair. Unwaith eto, bydd gan y cyflenwr a'r prynwr fel ei gilydd lai o waith gweinyddol, gan na fydd angen llenwi archebion prynu.

Pwy all dderbyn y Cerdyn Pryniant Cymreig?

Bydd unrhyw gyflenwr sydd ar hyn o bryd yn derbyn cardiau credyd yn cael derbyn y Cerdyn Pryniant Cymreig. Mae'n bosibl y bydd angen terfynell brosesu arbennig arnoch os bydd data manylach (fel TAW) yn cael ei gofnodi. Gan fod cardiau prynu wedi'u dylunio at y diben hwn, bydd llawer o'r cwsmeriaid sy'n eu defnyddio am weld y data manylach hwn.

Manteision i'r cyflenwr

Mae'n hawdd creu cyfrif	nid oes angen gwirio credyd i greu cyfrif newydd ✓
Mae'r taliad yn cael ei warantu o fewn 4 diwrnod gwaith	cewch fanteisio ar lif arian gwell yn lle gorfod aros am 30, 60 neu hyd yn oed 90 o ddiwrnodau ar ôl cyflwyno'r anfoneb ✓
Lleihau'ch costau gweinyddu	nid fydd yn rhaid i chi gynhyrchu anfonebau, datganiadau nac anfonebau atgoffa ar bapur ✓
Statws fel cyflenwr a ffefrir	wrth i fwy o sefydliadau flaenoriaethu'r cyflenwyr sy'n cael eu defnyddio ganddynt, yn aml, bydd derbyn y Cerdyn Pryniant Cymreig yn un o'u meini prawf wrth iddynt ddewis cyflenwr ✓
Mwy o gyfleoedd busnes	gan ddibynnu ar lefel y cerdyn prynu, gallech gael eich rhestru fel Cyflenwr Achrededig TAW yn y DU yn ogystal â chael eich cynnwys mewn cronfa ddata genedlaethol o gyflenwyr sy'n gallu derbyn y cerdyn prynu. Mae'r gronfa hon yn cael ei defnyddio gan Sector Cyhoeddus Cymru ✓
Cyfathrebu'n uniongyrchol â'ch prynwr	meithrin cysylltiadau â'ch prynwr a lleihau nifer y camgymeriadau a thrwy hynny nifer y nwyddau sy'n gorfod cael eu dychwelyd ✓

Gwahanol Lefelau'r Cerdyn Pryniant Cymreig

Bydd lefel y Cerdyn sydd ei hangen arnoch yn dibynnu ar eich cwsmeriaid. Dylech edrych yn ofalus ar ba lefel sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau:

Lefel 1 neu'r Lefel Fanwerthu – mae hon yn caniatáu i chi dderbyn cardiau credyd a chardiau prynu, ond ni fyddwch yn gallu cofnodi unrhyw ddata manwl am y taliad na data TAW.

Lefel 2 neu Grynodeb TAW – mae disgrifiad o'r hyn sy'n cael ei werthu a manylion TAW traddodiadol yn cael eu rhoi ar system brosesu'r cerdyn. Mae hefyd yn bosibl cofnodi manylion y cwsmer.

Lefel 3 neu Fanylion yr Eitem fesul Llinell (LID) – yn ogystal â rhoi manylion fel sydd yn lefel 2, gallwch hefyd roi manylion penodol – fel disgrifiad o'r eitem a nifer yr eitemau – yn system brosesu'r cerdyn.

Mae'r costau'n amrywio yn ôl lefel y cerdyn. Mae telerau ffafriol ar gael gan BBS fel rhan o'r ymgyrch i ddatblygu rhaglen y Cerdyn Pryniant Cymreig. I ddysgu mwy am lefelau'r cerdyn a'u costau, cysylltwch â thîm cyfnewidcymru.

I wybod rhagor

Gall cyfnewidcymru roi cymorth a chyngor ynghylch y Cerdyn Pryniant Cymreig.

I gael gwybodaeth gyffredinol ar dderbyn cardiau, cysylltwch â'ch banc eich hunan neu unrhyw fanc Stryd Fawr arall.

www.GwerthwchiGymru.co.uk
I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan:
www.xchangewales.co.uk
neu ebost:
xchangewales@wales.gsi.gov.uk

E6410910